OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 2910 (Cy.207) (C.124)

ADDYSG, CYMRU

Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud	- -	*18 Hydref 2005*
Yn dod i rym	- -	*31 Hydref 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd iddo gan adran 216(4)(b) a (5) o Ddeddf Addysg 2002(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso a dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005.

2. Mae'r darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn yn cael eu dwyn i rym o ran Cymru.

3. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae cyfeiriadau at adrannau ac Atodlenni yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlenni iddi.

Diwrnod penodedig

4. 31 Hydref 2005 yw'r diwrnod penodedig i'r darpariaethau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ddod i rym.

(**1**) 2002 p.32.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

D. Elis-Thomas
18 Hydref 2005 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

YR ATODLEN Erthygl 4

Darpariaethau sy'n dod i rym ar 31 Hydref 2005

Y ddarpariaeth	**Y pwnc**
Adran 19(1) i (7)	Cyrff llywodraethu
Adran 20(1) i (3), (5)	Offerynnau llywodraethu
Adran 23	Clerc y corff llywodraethu
Adran 33	Cyfarfodydd blynyddol rhieni
Adran 34	Trefniadau ar gyfer llywodraethu ysgolion newydd
Adran 39	Dehongli Pennod 1
Adran 52(11)	Gwahardd disgyblion
Adran 53	Targedau presenoldeb
Adran 215(1) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 21 isod	Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol
Adran 215(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â darpariaethau Atodlen 22 isod	Diddymiadau
Atodlen 1 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym	Ymgorffori Corff Llywodraethu a Phwerau Corff Llywodraethu
Atodlen 21	Mân Ddiwygiadau a Diwygiadau Canlyniadol
Paragraff 12;	
Paragraffau 23 a 25;	
Paragraff 26;	
Paragraff 27(3);	
Paragraff 28;	
Paragraff 29;	
Paragraffau 35 i 38;	
Paragraff 39(2) i (4);	
Paragraffau 40 i 44;	
Paragraff 50;	
Paragraff 52;	
Paragraff 57 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;	
Paragraff 58;	
Paragraff 59 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;	
Paragraffau 60 i 62;	

Y ddarpariaeth	Y pwnc
Paragraff 63 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;	
Paragraffau 64 a 65;	
Paragraff 67;	
Paragraff 92 i 94;	
Paragraff 98(3);	
Paragraff 99(2) a (3)(a);	
Paragraffau 101 i 103;	
Paragraff 106;	
Paragraff 110(2);	
Paragraff 110(3)(b) i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff (h) is-adran (6) o adran 127 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;	
Paragraff 110(3)(c) ac eithrio o ran paragraffau (n), (o), (p) a (q) newydd is-adran (6) o adran 127 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;	
Paragraff 112 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;	
Paragraff 113 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;	
Paragraff 118(6);	
Paragraff 127.	
Atodlen 22, Rhan 3, diddymu—	Diddymiadau
Deddf Addysg 1994(**3**), adran 4(4);	
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995(**4**), Yn Atodlen 4A, yn y Tabl ym mharagraff 1, paragraff 3;	
Deddf Addysg 1996(**5**), adran 29(6), yn adran 316A (11)(b) y geiriau "a maintained nursery school or", yn adran 317 is-adran (3)(b) a'r gair "and" sy'n dod o'i blaen, yn adran 329A (13)(a), y geiriau "a maintained nursery school or";	
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996(**6**), yn adran 11(5), paragraff (b), yn adran 15(4)(c) y geiriau "except where the school is a maintained nursery school", yn adran 21, yn is-adran (3)	

(**3**) 1994 p.30.
(**4**) 1995 p.50.
(**5**) 1996 p.56.
(**6**) 1996 p.57.

Y ddarpariaeth	Y pwnc
(b) y geiriau "except in the case of a maintained nursery school", yn Atodlen 3, yn y diffiniad o "appropriate authority" ym mharagraff 1, paragraff (b);	
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**7**), adrannau 36 a 37 adran 43, adran 44, yn adran 63, yn is-adrannau (1) a (3) y gair "unauthorised" ac, yn is-adran (4), y diffiniad o "unauthorised absence", adran 127(6)(h), yn adran 138, yn is-adran (2)(b), y geiriau "paragraph 3(5) or 4 of Schedule 10", Atodlenni 9 a 10, Atodlen 11 i'r graddau nad yw eisoes wedi'i diddymu, Atodlen 12.	

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ar 31 Hydref 2005 y darpariaethau hynny yn Neddf Addysg 2002 a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Mae'r cyfeiriadau isod at adrannau ac Atodlenni (heb fanylion pellach) yn gyfeiriadau at adrannau o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlenni iddi.

Yn achos darpariaethau sy'n cael eu dwyn i rym gan y Gorchymyn hwn ac sy'n diwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, mae'r cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn y darpariaethau hynny i'w darllen, o ran Cymru, fel cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru— gweler adran 211.

Mae effaith y darpariaethau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn fel a ganlyn—

Mae adrannau 19, 20, 23, 33, 34, 39 ac Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth o ran llywodraethu ysgolion a gynhelir, gan ddisodli amryw o ddarpariaethau Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998"). Mae adran 19 ac Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol a gynhelir gael corff llywodraethu. Bydd rheoliadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'r gofynion sy'n ymwneud ag aelodaeth o gyrff llywodraethu a gweithdrefnau'r cyrff hynny.

Mae adran 20 yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol a gynhelir feddu ar offeryn llywodraethu sy'n pennu cyfansoddiad y corff llywodraethu a materion eraill ynglŷn â'r ysgol. Bydd Rheoliadau gan y Cynulliad Cenedlaethol yn nodi'r gofynion o ran gwneud offerynnau llywodraethu a chynnwys yr offerynnau hynny.

Mae adran 23 yn galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud rheoliadau sy'n caniatáu i gyrff llywodraethu gydweithio drwy gyflawni eu swyddogaethau ar y cyd neu drwy gydbwyllgorau.

O dan adran 33 rhaid i gorff llywodraethu gynnal cyfarfod blynyddol rhieni. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol wneud rheoliadau sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y mae corff llywodraethu yn esempt rhag cynnal cyfarfod.

(**7**) 1998 p.31.